**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 12 Rhagfyr 2023 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S M Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
| --- | --- | --- |
| C L Philpott | M S Tribe | V A Holland |
| A J Jeffery | E T Kirchner | M W Locke |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
T Beddow

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
| --- | --- |
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |
| Hayley Gwilliam | Aelod y Cabinet dros y Gymuned |

**Swyddog(ion)**

| | |
| --- | --- |
| Amy Hawkins | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi |
| David Howes | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Helen St John | Pennaeth y Gwasanaethau Integredig |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): C A Holley, P R Hood-Williams, Y V Jardine a/ac J W Jones

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Monitro Perfformiad

Roedd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phenaethiaid Gwasanaeth perthnasol yn bresennol i friffio'r Panel ar yr Adroddiad Monitro Perfformiad ar gyfer Hydref 2023 a dywedasant ei fod yn dangos darlun cymysg.

Pwyntiau Trafod:

- Cynnydd yn nifer yr ymgynghoriadau diogelu eto ym mis Hydref.  Mae nifer y pryderon proffesiynol ac o ba sector y maent yn berthnasol iddo bellach wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, yn unol â chais y Panel.
- Canmolodd y Panel Dŷ Bôn-y-maen ac mae'n teimlo ei fod yn gweithio'n dda iawn.
- Mae'r Panel yn teimlo bod gwaith y Llys Gwarchod yn gymhleth iawn a holodd sut mae gweithwyr cymdeithasol yn llwyddo i wneud y gwaith hwn ar ben eu swyddi sydd eisoes yn feichus. Cytunodd swyddogion ei fod yn waith cymhleth iawn, ond mae staff yn cael eu cefnogi ac mae'n rhan o'u rôl.
- Ystyriwyd y Gwasanaethau Cyfreithiol mewn cyfarfod blaenorol o ran cynyddu gallu cymorth cyfreithiol naill ai'n fewnol neu'n rhanbarthol. Holodd y Panel a oedd mwy o ystyriaeth wedi'i roi i ffyrdd y gellid gwneud hyn. Y model a ffefrir ar hyn o bryd ar gyfer cymorth cyfreithiol yw model mewnol.
- Gofynnodd y Panel a yw'n debygol y bydd y Cyngor yn ymuno ag awdurdodau eraill i wneud gwaith mewnol. Hysbyswyd y Panel fod trefniant rhanbarthol ar gyfer rhywfaint o waith cyfreithiol, fodd bynnag, mae amheuon ynghylch mynd yn ôl i drefniant cwbl ranbarthol.
- Holodd y Panel a oedd trefniadau rhyddhau o'r ysbyty yn cyfateb i berfformiad awdurdodau eraill neu a oeddent yn well o ran capasiti ysbytai. Mae swyddogion yn credu bod Abertawe'n weddol uchel yn y tabl ar gyfer awdurdodau cymaradwy ac mae'r trefniadau'n eithaf cadarn.

## 6 Sesiwn friffio ar ddementia (gan gynnwys astudiaethau achos)

Roedd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi a Phennaeth y Gwasanaethau Integredig yn bresennol i friffio'r Panel ar ofal dementia, gan gynnwys blaenoriaethau rhanbarthol, cymorth gwaith cymdeithasol, enghreifftiau o wasanaethau dementia mewnol o gomisiynir a hefyd i ddarparu rhai astudiaethau achos, yn unol â chais y Panel. Pwysleisiwyd hefyd fod llawer o waith yn cael ei wneud gan bartneriaid, yn enwedig yn y trydydd sector.

Pwyntiau Trafod:

- Mae'r panel yn teimlo bod y gwasanaeth wedi dod yn bell tuag at gefnogi pobl â dementia.
- O ran Strategaethau Ataliol, gofynnodd y Panel am adborth ar gynnydd y strategaethau hyn.  Cytunwyd y dylid darparu rhagor o wybodaeth i'r Panel ar

waith lleol ynghylch cymorth cynnar ac atal o ran dementia a gwaith rhanbarthol.

- Holodd y panel a yw Marie Curie wedi ehangu ei gwmpas i helpu gyda'r agwedd hon ar salwch. Clywodd y Panel, o ran prosiectau penodol, mae Prosiect Marie Curie yn brosiect seibiant a ariennir gan y Bartneriaeth Ranbarthol o dan y Gronfa Dementia. Cytunwyd i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Panel.
- Gofynnodd y panel a ellir rhannu'r disgrifiad swydd ar gyfer rôl Cysylltydd Dementia gyda'r Panel. Clywodd y Panel fod y rôl hon yn gysylltiedig â'r Hwb Dementia ac mae'n brosiect sy'n cael ei gynnal gan y trydydd sector. Nid oes gan y Cyngor unrhyw ddylanwad uniongyrchol ar y disgrifiad swydd.
- Gofynnodd y Panel am y cynnydd yn y Taliadau Uniongyrchol sy'n cael eu darparu i bobl â dementia ac effaith hyn ar wariant y Cyngor. Clywodd y Panel fod cynnydd cyffredinol mewn gwariant Taliadau Uniongyrchol yn unol â gwariant y Cyngor. Clywodd y Panel hefyd fod anghenion gofal penodol y garfan hon o bobl yn eithaf unigol a bod rhywfaint o hawl i daliadau uniongyrchol i gael trefniadau mwy pwrpasol.

Camau Gweithredu:

- Darparu rhagor o wybodaeth am gymorth cynnar ac atal Dementia i'r Panel.
- Darparu rhagor o wybodaeth i'r Panel am Brosiect Marie Curie.

7 **Cynllun Waith 2023-24**

Ystyriodd y Panel y rhaglen waith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.40 pm